



GRANTIAU CYHOEDDI CYMRAEG

CANLLAWIAU

GRANTIAU I GÊMAU

A CANLLAWIAU

1 AMCANION

Amcan y cynllun yw hyrwyddo cynhyrchu gêmâu, i oedolion ac i blant, sy'n deillio o lyfrau a gefnogwyd eisoes, yn ailwrpasu delweddau a noddwyd, ac yn hyrwyddo llyfrau a darllen yn gyffredinol

2 CYMHWYSTER

Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?

Mae'r cynllun yn agored i bawb sy'n gallu cwrdd â'r gofynion isod.

Pa brosiectau sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth?

- Mae'r cynllun yn cynnig grantiau tuag at gost cynhyrchu gêmâu, i oedolion ac i blant, sy'n deillio o lyfrau a gefnogwyd eisoes, yn ailwrpasu delweddau a noddwyd, ac yn hyrwyddo llyfrau a darllen yn gyffredinol.
- Ni chefnogir deunydd sydd i'w ddefnyddio mewn ysgolion yn unig neu'n bennaf.

3 BLAENORIAETHAU A MEINI PRAWF AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU

Cloriennir ceisiadau yn ôl y meini prawf canlynol:

- y nifer o gopiâu y bwriedir eu cynhyrchu;
- y gwerthiant tebygol;
- safon debygol y gêmâu, o ran eu perthnasedd i lyfrau, defnydd o iaith, dychymyg, dyfeisgarwch, gwneuthuriad, etc.;
- defnyddioldeb ac addasrwydd: gellir seilio hyn ar gynnyrch cyffelyb sydd ar gael eisoes, a/ neu ar brofion arweiniol. Cyfrifoldeb y cyhoeddwr fydd dangos bod y prosiect yn addas ar gyfer ei defnyddwyr arfaethedig, e.e. trwy fynnu prototeip gan y dylunydd a'i brofi;
- safon a gwerthiant cynnyrch blaenorol y cyhoeddwr yn y maes hwn;
- safon gwaith unrhyw gwmni arall a delir i gynhyrchu'r gêmâu;
- cynlluniau ar gyfer marchnata'r gêmâu;
- gwerth am arian.

4 Y GRANT



- Grantiau bychain yn unig sydd ar gael trwy'r cynllun hwn. Fel arfer, bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn ceisio gwneud cyfraniad tuag at bontio'r bwlch rhwng y costau cynhyrchu a'r incwm tebygol o werthiant yn ystod y ddwy flynedd gyntaf.

5 SUT A PHRYD I YMGEISIO

- Rhaid ymgeisio ar y ffurflen gais, sydd i'w chael o'r cyfeiriad ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Rhaid anfon disgrifiad manwl (yn cynnwys rheolau chwarae ac unrhyw ganllawiau eraill) o'r gêmau sydd i'w cynhyrchu.
- Lle bwriedir addasu gêm sy'n bodoli eisoes, dylid anfon copi o'r gêm wreiddiol, ynghyd â chadarnhad bod pob hawl a chaniatâd wedi'i glirio.
- Rhaid i'r cyhoeddwr roi manylion cyn llawned â phosib am ei brofiad ym maes cynhyrchu gêmau. Dylai anfon samplau o gynnyrch blaenorol, neu waith a wnaed i gwmni arall, ynghyd â gwybodaeth am werthiant.
- Rhaid cynnwys gwybodaeth am bawb sy'n gwneud cyfraniad pwysig i'r fenter (e.e. awdur, dylunydd, arbenigwyr technegol).
- Ystyrir ceisiadau gan y Panel Grantiau Cyhoeddi Cymraeg, sy'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn.

Os cynigir grant, gwneir hynny yn unol ag amodau cyffredinol, yn ogystal ag unrhyw amodau arbennig a bennir yn achos cais unigol. **Disgwylir i bob ymgeisydd ymrwymo i'w derbyn wrth gyflwyno cais.**

6 TALU'R GRANTIAU

Gellir hawlio'r grant trwy anfon pedwar copi o'r gêm ynghyd â'r ffurflen hawlio grant a manylion y costau terfynol i'r Adran Grantiau Cyhoeddi.

7 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn gofyn am ffigurau gwerthiant.

B AMODAU CYFFREDINOL

- 1 Cynigir y grant ar sail yr wybodaeth sydd yn y cais, ac unrhyw ohebiaeth atodol. Bydd y Cyngor yn cadw'r hawl i ailystyried neu ddiddymu'r grant a ddyfarnwyd mewn achosion lle nad yw'r gwaith cyhoeddedig yn cyfateb â'r manylion a roddwyd ar y ffurflen gais neu a gytunwyd fel arall.
- 2 Rhaid i'r sawl sy'n derbyn grant gydymffurfio ag unrhyw amodau a gofynion ychwanegol a nodir yn y cynnig grant ffurfiol neu mewn unrhyw lythyr eglurhaol.



- 3 Dylid cynnwys y gydnabyddiaeth a ganlyn ar bob gêm a gyhoeddir gyda chymorth grant: “Mae’r cyhoeddwr yn cydnabod cymorth ariannol Cyngor Llyfrau Cymru”. Ni ddylid defnyddio cydnabyddiaeth o’r grant hwn nac unrhyw gyfeiriadau eraill at y Cyngor mewn unrhyw ffordd i awgrymu fod y Cyngor yn cymryd neu’n derbyn cyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti am ddyledion neu rwymedigaethau’r sawl sy’n derbyn y grant (gweler rhif 20).
- 4 Mae’n ofynnol i bob gêm sy’n derbyn cymorth grant ddangos côd bar, ac, os yw’n bosibl, rif ISBN 13 digid.
- 5 Dylai’r wybodaeth gychwynnol am gêm sy’n derbyn cymorth grant gyrraedd Swyddog Gwybodaeth y Cyngor Llyfrau o leiaf dri mis cyn cyhoeddi’r gêm, yn ôl gofynion y Cyngor.
- 6 Dylai’r wybodaeth gael ei hadolygu’n gyson gan y cyhoeddwr, cyn ac ar ôl cyhoeddi’r gêm. Dylai unrhyw newidiadau o ran pris ac argaeledd gael eu nodi’n rheolaidd nes bod y gêm allan o brint, a’r cyhoeddwr wedi penderfynu peidio â chynhyrchu rhagor o gopïau.
- 7 Rhaid i bawb a gomisiynir i greu gwaith ar gyfer gêm dderbyn cytundeb a chael eu talu yn unol â gofynion y cytundeb hwnnw. Os cytunir i dalu breindal, rhaid gwneud hynny’n rheolaidd.
- 8 Rhaid nodi nifer copïau y rhediad cychwynnol a gyhoeddir ar y ffurflen hawlio.
- 9 Dylid anfon pedwar copi cyfarch o’r gwaith cyhoeddedig i Gyngor Llyfrau Cymru gyda’r ffurflen hawlio grant.
- 10 Rhaid i gyhoeddwr ddarparu manylion costau’r holl waith cynhyrchu a wnaed ar eu rhan mewn perthynas â’r prosiect dan sylw. Ceidw Cyngor Llyfrau Cymru’r hawl i ofyn am unrhyw dystiolaeth berthnasol arall.
- 11 Cymerir safon y gwaith gwreiddiol a’r cynhyrchu i ystyriaeth wrth bennu’r grant terfynol. Gellir gostwng y grant mewn achosion lle bernir bod y gwaith yn ddiffygiol.
- 12 Os na chydymffurfir â’r amodau perthnasol, gall Cyngor Llyfrau Cymru fynnu fod y derbynydd yn dychwelyd y cyfan neu ran o unrhyw grant a allai fod wedi cael ei dalu.
- 13 Mae’n ofynnol hysbysu’r Cyngor Llyfrau am unrhyw arian a geir o ffynonellau eraill tuag at gyhoeddi deunydd a gefnogir â grant, naill ai ar y ffurflen gais neu’r ffurflen hawlio.
- 14 Mewn achosion lle bo’r grant a ddyfarnwyd yn amrywio o uchafswm i isafswm, telir yr uchafswm i gyhoeddiadau sy’n arddangos safon uchel.
- 15 Rhaid i bob deunydd sy’n derbyn grant fod ar gael drwy Ganolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru ac ar gael i gwsmeriaid y Ganolfan ar y telerau masnachu arferol oni bai y cytunir fel arall.



- 16 Mae'n amod bod deunydd sy'n derbyn cymorth grant yn cael ei anfon i Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau cyn neu ar yr un pryd ag y bydd ar gael trwy ddulliau eraill i unrhyw ddsbarthwr neu werthwr.
- 17 Mae'n amod y dylai deunydd grant fod ar gael yn y Ganolfan Ddosbarthu am o leiaf flwyddyn ar ôl ei gyhoeddi. Os bydd gêm yn mynd allan o brint cyn pen blwyddyn, a'r cyhoeddwr yn anfodlon darparu ychwaneg o gopïau, gall y Cyngor hawlio ad-daliad o hyd at £1,000.
- 18 Yn achos deunydd a gefnogir â grant, mae'n amod na ddylid gostwng pris gwerthu'r deunydd yn sylweddol (megis mewn arwerthiant hanner pris) am gyfnod o ddeunaw mis ar ôl ei gyhoeddi. (Nid yw hyn yn rhwystro cyhoeddwr rhag cael 'cynigion arbennig' neu ostyngiadau eraill er mwyn hyrwyddo'r deunydd.)
- 19 Rhaid i bob cyhoeddwr ddarparu ffigurau gwerthiant ar gyfer pob teitl am gyfnod o hyd at ddeunaw mis o'r dyddiad cyhoeddi. Bydd Cyngor Llyfrau Cymru'n gofyn i'r cyfryw ffigurau gael eu cyflwyno.
- 20 Mae'r cyhoeddwr ar ei ran ei hun (ac eraill) yn cyfamodi gyda Chyngor Llyfrau Cymru a'i olynwyr y bydd ef ar bob adeg wedi hyn yn rhyddarbed ac yn indemnio Cyngor Llyfrau Cymru a'i eiddo rhag pob achos, cost, hawliad a chais a gyfyd yn sgil torri unrhyw gyfraith gwlad.

Ceir ffurflenni cais a gwybodaeth bellach oddi wrth:

Arwel Jones, Adran Grantiau Cyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB

Ffôn: 01970 629553

e-bost: arwel.jones@llyfrau.cymru